

Rhoi llais i bobl gydag anhwylder datblygu iaith

Mae anhwylder datblygu iaith (DLD) yn gyflwr gydol oes y gellir ei ddiagnosisio gyntaf yn ystod plentynod. Mae'n effeithio ar sut mae pobl yn deall a mynegi iaith. Nid oes unrhyw un achos hysbys, er fod tystiolaeth yn awgrymu fod gan ffactorau risg biolegol, genynnol ac amgylcheddol ran. Os caiff ei adael heb ei adnabod a'i gefnogi, gall DLD ostwng mynediad i addysg, cyflogaeth a rhyngweithio cymdeithasol.

Mae gan therapyddion lleferydd ac iaith rôl hanfodol i'w chwarae mewn diagnosis DLD ac wrth gefnogi pobl gyda DLD, ynghyd â'u teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw, i ddeall eu diagnosis, cyflawni eu potensial a gostwng effaith eu anawsterau.



Cyffredinrwydd anhwylder datblygu iaith

- ▶ Mae dau o blant ym mhob dosbarth o ddeg ar hugain neu **7.58%** o blant yn dechrau'r ysgol gyda DLD.¹
- ▶ Mae **2.34%** arall o blant yn dechrau ysgol gydag anhwylder iaith yn gysylltiedig gyda chyflwr arall, tebyg i awtistiaeth, anaf i'r ymennydd, syndrom Down, parlys yr ymennydd, nam ar y clyw neu anabledau dysgu.²

Beth yw anhwylder datblygu iaith?

Mae DLD yn gyflwr gydol oes a nodweddir gan anawsterau i ddeall a/neu ddefnyddio iaith lafar. Nid oes unrhyw un achos hysbys am DLD ac mae'n debyg o fod yn ganlyniad nifer o ffactorau risg biolegol, genetig ac amgylcheddol.

Arferai DLD gael ei alw yn nam iaith penodol (SLI). Er nad yw'n union yr un fath, DLD yn awr yw'r term a gytunwyd a bydd pobl gyda diagnosis SLI yn gymwys am ddiagnosis o DLD.

Gellir diagnosisio DLD os yw anawsterau iaith plentyn yn debyg o barhau drwy gydol plentynod ac i'r glasoed a bywyd fel oedolyn.

Mae DLD yn effeithio'n wahanol ar bob unigolyn ac mae amrywiaeth eang o ffyrdd y gall problemau iaith gyflwyno ac esblygu dros gyfnod.

Gall pobl gyda DVD gael anawsterau gyda:

- gwrando, sylw, cof a phrosesu iaith, yn arbennig pan gaiff lawer o wybodaeth ei rhoi yn llafar;
- dilyn cyfarwyddiadau, deall cwestiynau a naratifau;
- deall a defnyddio geirfa;
- mynegi'r hyn y maent eisiau ei ddweud, yn cynnwys anawsterau gyda chanfod geiriau, gramadeg a chael trefn ar eu meddyliau;
- rhyngweithio cymdeithasol, yn cynnwys cael anawsterau yn ymuno mewn sgysrsiau, deall jôcs a iaith an-llythrennol; a
- defnyddio iaith i fynegi eu meddyliau a'u teimladau a rheoleiddio eu hymddygiad a'u cysylltiad gyda phobl eraill.

Mae pobl gyda DLD hefyd mewn risg o gael anawsterau gyda darllen ac ysgrifennu a gyda gwahaniaethu rhwng gwahanol synau, naill ai ar ben eu hunain neu o fewn geiriau. Er enghraifft, gwybod fod "sudd" a "bydd" yn wahanol eiriau oherwydd fod y sain cyntaf yn wahanol. Caiff hyn ei alw yn ymwybyddiaeth ffonolegol.

Gall unigolion gyda DLD gael anawsterau yn cynhyrchu seiniau lleferydd, er nid bob amser.

Effaith bosibl anhwylder datblygu iaith

Gellir lleihau effaith DLD os yw anghenion pobl gyda DLD yn cael eu hadnabod ac yn cael cefnogaeth briodol. Heb y gefnogaeth honno, gall pobl wynebu heriau gyda'u hiechyd a llesiant meddwl, perthynas, datblygiad personol, addysg, cyflogaeth ac ansawdd bywyd.

Mae DLD hefyd yn golygu fod plant mewn risg o ddod yn ddiodefwyr a chanfuwyd ei fod yn cael effaith economaidd ac ariannol ar unigolion, eu teuluoedd a chymdeithas.

Iechyd a llesiant meddwl

Mae plant gydag anhwylderau iaith mewn risg o anawsterau llesiant seicolegol a chymdeithasol.^{4,5} Mae'r



glasoed ac oedolion ifanc gyda DLD yn fwy tebygol o brofi pryder ac iselder na'u cyfoedion. Mae oedolion ifanc gyda DLD yn wynebu heriau mwy i'w llesiant. Mae'r bregusrwydd hwn yn gysylltiedig gydag amrywiaeth o ffactorau, yn cynnwys perthnasoedd cymdeithasol, iechyd a chyflogaeth.⁶

Perthnasoedd

Mae'r glasoed ac oedolion ifanc gyda DLD yn fwy tebygol na'u cyfoedion i gael anawsterau yn ffurfio a chynnal perthynas.^{7,8,9}

Datblygiad personol

Mae gan bobl gyda DLD yn aml lai o hunan-dyb yn y glasoed ac fel oedolion. Mae ganddynt hefyd lai o hyder cymdeithasol.^{10,11}

Addysg

Mae gan blant a phobl ifanc gyda DLD gymwysterau academaidd a galwedigaethol is a chanfuwyd eu bod wedi gadael addysg yn sylweddol gynharach na'u cyfoedion.¹²

Cyflogaeth

Canfuwyd fod pobl gyda DLD yn llawer mwy tebygol o fod mewn swyddi heb fod yn broffesiynol a bod oedolion ifanc gyda DLD yn ddi-waith bedair gwaith yn hirach na'u cyfoedion. Canfuwyd fod canran uwch o bobl gyda DLD mewn cyflogaeth ran-amser a bod mwy o'u cyfoedion mewn cyflogaeth lawn-amser.¹³

Ansawdd bywyd

Mae gan blant gyda DLD ansawdd bywyd is na'r rhan fwyaf o'u cyfoedion yn naw oed. Ymddengys fod gan broblemau cymdeithasol-emosiynol sy'n cyd-ddigwydd ran bwysig wrth gyfrannu at yr ansawdd bywyd is hwn.¹⁴ Mae ymchwil hefyd yn dangos fod anawsterau eilaidd mewn cymhwysedd cymdeithasol-emosiynol mewn plant gyda DVD yn eu gwneud mwy bregus i ddod yn ddiodefwyr.¹⁵

Economaidd

Gall DLD hefyd gael effaith economaidd ar unigolion, teuluoedd a chymdeithas. Canfu ymchwil fod DLD yn debygol o roi baich cynyddol ar y system iechyd a llesiant wrth i blant symud drwy'r ysgol ac ar ôl iddynt adael addysg. Canfuwyd hefyd fod DLD yn effeithio ar botensial enillion cyflog yn y dyfodol, fel canlyniad i lefelau isel o lythrennedd a rhifedd. Yn ychwanegol, canfuwyd fod gofawyr plant gyda DLD yn symud o waith ar dâl i waith di-dâl drwy weithio llai o oriau. Pan mae cyflwr eu plentyn yn ddifrifol neu barhaus, mae mamau hefyd yn llai tebygol o gael eu cyflogi.¹⁶

Ariannol

Mae gan DLD effaith ar allu pobl i drefnu a rheoli eu cyllid. O gymharu â'u cyfoedion sy'n datblygu'n arferol, mae gan bobl ifanc gyda DLD lai o gyswllt gyda chynnyrch ariannol ac yn llai cymwys wrth drefnu a rheoli eu cyllid. Mae cyfran sylweddol uwch o'r rhai gyda DLD (48% o gymharu â 16% o'u cyfoedion) yn cael cymorth, yn bennaf gan rieni, gyda gwahanol dasgau ariannol yn cynnwys talu biliau, dewis cynnyrch ariannol a chymryd benthyciadau gan berthnasau neu gyfeillion.



Mae angen asesiadau cynhwysfawr i ddynodi sut mae DLD yn effeithio ar allu unigolyn i:

- gyfathrebu;
- cyfranogiad cymdeithasol;
- llesiant; a
- dysgu

Mae angen monitro rheolaidd ar gynydd ac addasiadau i reolaeth i ddynodi anghenion ar bob cam mewn datblygiad, yn neilltuol ar fannau pontio – er enghraifft o ysgol feithrin i ysgol gynradd, o ysgol gynradd i ysgol uwchradd ac o ddarpariaeth uwchradd i ôl-16.

Nod therapi lleferydd ac iaith yw:

- datblygu galluedd iaith pobl gyda DLD i eithaf eu potensial; ac
- addysgu strategaethau i bobl gyda DLD a'r rhai o'u hamgylch i ostwng effaith eu anawsterau mewn cyfathrebu a'u mynediad mewn addysg, cyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus a gweithgareddau cymdeithasol.

Mae therapi lleferydd ac iaith yn helpu pobl gyda DLD i gynyddu eu potensial iaith i'r eithaf. Mae hyn yn helpu i i ostwng rhai o ganlyniadau negyddol yr anhwylder.

Rôl therapi lleferydd ac iaith

Gyda'u gwybodaeth ac arbenigedd mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu, mae gan therapyddion lleferydd ac iaith rôl hollbwysig mewn diagnosis a rheoli DLD. Mae hyn yn cynnwys rhoi therapi uniongyrchol i bobl gyda DLD sydd ei angen, wedi ei deilwra i'w hanghenion unigol.

Mae hefyd yn cynnwys cefnogi eu teuluoedd a, thrwy weithio tîm aml-ddisgyblaeth, gefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl gyda DLD i adnabod ac yn ymateb mewn modd priodol i'w anawsterau.

Mae rôl therapi lleferydd ac iaith yn cynnwys:

- adnabod a diagnosisio DLD a'r rhai sydd mewn risg ohono;
- llunio a chyflwyno rhaglenni a arweinir gan angen o therapi unigol neu grŵp bychan;
- goruchwylio rhaglenni therapi a gyflwynir gan eraill, yn cynnwys y sicrhau fod gan unigolion hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol, ac y caiff eu cynnydd ei fonitro'n rheolaidd;
- cefnogi pobl gyda DLD, eu teuluoedd a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw, yn cynnwys i ddeall eu diagnosis a sut y gall effeithio ar eu bywydau, fel y gallant ymateb mewn modd priodol ac eirioli drostynt eu hunain;
- cefnogi ysgolion i integreiddio strategaethau i'r cwricwlwm er mwyn meithrin plant wrth ddysgu a defnyddio iaith; a
- chynyddu potensial cyfathrebu i'r eithaf drwy sgilio eraill i defnyddio strategaethau hwyluso neu ddefnyddio cymhorthion cyfathrebu cynyddol.


Stori Christina

Cafodd Christina ei hatgyfeirio i therapi lleferydd ac iaith oherwydd ei bod yn cael anhawster deall yr hyn a ddywedid wrthi, yn ogystal â phroblemau yn mynegi ei hun. Yn dilyn asesiad gan therapydd lleferydd ac iaith, cafodd Christina ddiagnosis o anhwylder datblygu iaith.

Ers ei diagnosis, mae Christina wedi derbyn therapi uniongyrchol gan ei therapydd lleferydd ac iaith, yn ogystal â darpariaeth anuniongyrchol drwy ei hysgol brif ffrwd. Wedyn mynychodd Ganolfan Iaith yn ei hysgol lle derbyniodd therapi uniongyrchol gan therapydd lleferydd ac iaith a chymorth addysgu arbenigol gan gynorthwydd a hyfforddwyd gan therapydd lleferydd ac iaith. Mae'r therapydd lleferydd ac iaith wedi helpu Christina i ddeall ei diagnosis, yn ogystal â gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill a theulu Christina i sicrhau fod ganddi strategaethau i gefnogi ei dysgu.

Diolch i'w chefnogaeth, mae defnydd Christina o iaith (iaith fynegiannol) wedi gwella. Mae hefyd wedi gwneud cynnydd gyda deall iaith (iaith oddefol). Dywedodd y Ganolfan Iaith fod ei sgiliau llythrennedd hefyd yn datblygu.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Christina wedi gweithio ar ofyn am help a strategaethau egluro. Ei nod am y flwyddyn i ddod yw gweithio gyda'i therapydd lleferydd ac iaith a deall ac ateb cwestiynau arholiadau, gan ddefnyddio geirfa allweddol y cwricwlwm a brawddegau cymhleth i gynyddu cyfranogiad yn yr ysgol a bywyd yn ehangach.



Mae DLD yn effeithio yn wahanol ar bob unigolyn felly bydd y cymorth mae rhywun gyda DLD ei angen yn ystod eu bywyd yn amrywio yn ôl eu hanghenion unigol. Mae'r ddelwedd yma'n dangos yr ystod o bobl a gwasanaethau a all fod yn gysylltiedig wrth gefnogi rhai gyda DLD.

Hydref 2021

CYFEIRIADAU

- ¹ Norbury, C. F., Gooch, D., Wray, C., Baird, G., Charman, T., Simonoff, E., Vamvakas, G. & Pickles, A. (2016). The impact of nonverbal ability on prevalence and clinical presentation of language disorder: evidence from a population study. *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 57(11), 1247–1257.
- ² *ibid.*
- ³ Lyons, R. & Roulstone, S. (2018). Well-being and resilience in children with speech and language disorders. *Journal of Speech, Language and Hearing Research*, 61, 324–344.
- ⁴ Conti-Ramsden, G. & Botting, N. (2008). Emotional health in adolescents with and without a history of specific language impairment (SLI). *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 49(5), 516–525.
- ⁵ Botting, N., Toseeb, U., Pickles, A., Durkin, K. & Conti-Ramsden, G. (2016). Depression and anxiety change from adolescence to adulthood in individuals with and without language impairment. *PLoS one*, 11(7), 1–13.
- ⁶ Conti-Ramsden, G., Durkin, K., Mok, P. L., Toseeb, U. & Botting, N. (2016). Health, employment and relationships: Correlates of personal wellbeing in young adults with and without a history of childhood language impairment. *Social Science & Medicine*, 160, 20–28.
- ⁷ Durkin, K. & Conti-Ramsden, G. (2007). Language, social behavior, and the quality of friendships in adolescents with and without a history of specific language impairment. *Child Development*, 78(5), 1441–1457.
- ⁸ Mok, P. L., Pickles, A., Durkin, K. & Conti-Ramsden, G. (2014). Longitudinal trajectories of peer relations in children with specific language impairment. *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 55(5), 516–527.
- ⁹ Wadman, R., Durkin, K. & Conti-Ramsden, G. (2011). Close relationships in adolescents with and without a history of specific language impairment. *Language, Speech, and Hearing Services in Schools*, 42(1), 41–51.
- ¹⁰ Durkin, K., Toseeb, U., Botting, N., Pickles, A. & Conti-Ramsden, G. (2017). Social confidence in early adulthood among young people with and without a history of language impairment. *Journal of Speech, Language, and Hearing Research*, 60, 1635–1647.
- ¹¹ Wadman, R., Durkin, K. & Conti-Ramsden, G. (2008). Self-esteem, shyness, and sociability in adolescents with specific language impairment (SLI). *Journal of Speech, Language, and Hearing Research*, 51(4), 938–952.
- ¹² Conti-Ramsden, G., Durkin, K., Toseeb, U., Botting, N. & Pickles, A. (2018). Education and employment outcomes of young adults with a history of developmental language disorders. *International Journal of Language and Communication Disorders*, 53(2), 237–255.
- ¹³ *ibid.*
- ¹⁴ Eadie, P., Conway, L., Hallenstein, B., Mensah, F., McKean, C. & Reilly, S. (2018). Quality of life in children with developmental language disorder. *International Journal of Language and Communication Disorders*, 53(4), 799–810.
- ¹⁵ van den Bedem, N. P., Dockrell, J. E., van Alphen, P. M., Kalicharan, S. V. & Rieffe, C. (2018). Victimization, Bullying, and Emotional Competence: Longitudinal Associations in (Pre)Adolescents With and Without Developmental Language Disorder. *Journal of Speech, Language and Hearing Research*, 61, 2028–2044.
- ¹⁶ Cronin, P. A. (2017). The economic impact of childhood developmental language disorder, OPUS. Available at: <https://opus.lib.uts.edu.au/handle/10453/123261>
- ¹⁷ Winstanley, M., Durkin, K., Webb, R. T. & Conti-Ramsden, G. (2018). Financial capability and functional financial literacy in young adults with developmental language disorder. *Autism & Developmental Language Impairments*, 3, 1–11.
- ¹⁸ Ebbels, S.H., McCartney, E., Slonims, V., Dockrell, J. E. and Norbury, C.F. (2018). Evidence based pathways to intervention for children with language disorders. *International Journal of Language & Communication Disorders*. doi: 10.1111/1460-6984.12387